# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Ethol Cynghorwyr Cymuned

ar gyfer Ward Langstone Cyngor Cymuned Langstone

| Ward Gymunedol | Nifer y Cynghorwyr Cymuned i'w hethol |
|---|---|
| Langstone | 2 |

**1.** Gellir cael ffurflenni enwebu ar gyfer Etholiadau Cynghorau Cymuned o Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR gan y Swyddog Canlyniadau a fydd, ar gais etholwr ar gyfer unrhyw ardal etholiadol, yn paratoi papur enwebu i'w lofnodi.
**2.** Rhaid anfon papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR, rhwng **10:00** a **16:00** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc) o ddyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **16:00 ddydd Mercher, 13 Mawrth, 2024.**
**3.** Os bydd cystadleuaeth, cynhelir yr etholiad **ddydd Iau, 11 Ebrill, 2024.**
**4.** Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos **ddydd Gwener, 22 Mawrth, 2024**. Gellir gwneud cais ar-lein: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio
**5.** Dylai etholwyr a'u dirprwyon gymryd sylw bod yn rhaid i bob cais am bleidleisiau post newydd, pleidlais bost drwy ddirprwy a diwygiadau neu ganslo pleidleisiau post a phleidleisiau drwy ddirprwy bresennol gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod, erbyn **17:00 ddydd Llun 25 Mawrth, 2024**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w trefniadau presennol yn barhaol.
**6.** Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR erbyn **17:00 ddydd Mercher, 3 Ebrill, 2024**.
**7.** Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail argyfwng meddygol, am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad uchod erbyn **17:00 ddydd Iau 11 Ebrill, 2024**. Rhaid bod yr analluogrwydd corfforol wedi digwydd ar ôl **17:00 ddydd Mercher, 3 Ebrill, 2024**. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, mae'n rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl **17:00 ddydd Mercher, 3 Ebrill, 2024**.
**8.** Dylid anfon ymholiadau cychwynnol i Leanne Rowlands, Dirprwy Swyddog Canlyniadau, Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR, Rhif ffôn: 01633 210744

**Datganiad Cyflenwi Electronig**

Mae'n RHAID i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig drwy e-bost gael eu hanfon i: - elections2022@newport.gov.uk. Os anfonir papurau enwebu i unrhyw gyfeiriad e-bost arall ni ystyrir eu bod wedi'u dosbarthu i'r Swyddog Canlyniadau ac felly ni fyddant yn cael eu derbyn.
•Anogir gwiriadau anffurfiol cyn cyflwyno papurau enwebu yn ffurfiol. Rhaid anfon gwiriadau anffurfiol at elections2022@newport.gov.uk gyda'r pwnc canlynol: 'GWIRIAD ANFFURFIOL'.
•Anogir ichi gynnwys manylion cyswllt ychwanegol yn eich e-bost fel y bo modd i'r Swyddog Canlyniadau/staff Gwasanaethau Etholiadol gysylltu â chi ynghylch unrhyw ymholiadau.
•Er mwyn sicrhau trywydd archwilio clir o bapurau enwebu a gyflwynwyd, dim ond un set o bapurau enwebu wedi'u cwblhau fesul e-bost a dderbynnir.
•Gellir atodi papurau enwebu wedi'u cwblhau at e-bost fel dogfen Word neu fel atodiad .pdf yn unig.
•Gall papurau enwebu gael eu llofnodi'n electronig — gallai hyn fod ar ffurf llofnod wedi'i deipio er enghraifft.
•Rhaid anfon papurau enwebu yn ffurfiol drwy e-bost at elections2022@newport.gov.uk gyda'r pennawd pwnc 'CYFLWYNIAD FFURFIOL'.
•Unwaith y bydd papurau enwebu wedi'u cyflwyno i elections2022@newport.gov.uk i'w dosbarthu'n ffurfiol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau iddynt wedyn ac ni ellir eu dychwelyd.
•Gellir hefyd anfon hysbysiadau o dynnu'n ôl at elections2022@newport.gov.uk
•Y terfyn maint e-bost uchaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw 30MB. Ni fydd unrhyw ffeiliau a anfonir sy'n fwy na hyn yn cael eu derbyn gan y Swyddog Canlyniadau.
•Anfonir ateb e-bost awtomatig gan y Swyddog Canlyniadau ar ôl derbyn yr e-bost. Nid yw hyn yn cadarnhau bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am eu penderfyniad ynghylch a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio.
•Mae papurau enwebu a hysbysiadau o dynnu'n ôl yn cael eu trin fel pe baent wedi cael eu cyflwyno ar yr adeg pan gaiff eu cofnodi ar y system gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y Swyddog Canlyniadau.
•Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn ffurflenni enwebu a cheisiadau ynghylch tynnu'n ôl yn unol â gofynion y datganiad dosbarthu electronig hwn ac erbyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiad. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno enwebiadau yn electronig, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau ar 01633 210744 neu cysylltwch â uvote@newport.gov.uk

Llofnodwyd gan

**Beverly Owen**
**Swyddog Canlyniadau**
Cyngor Dinas Casnewydd,
Canolfan Ddinesig,
Casnewydd.
NP20 4UR

*Dyddiad: 5 Mawrth, 2024*

*Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, De Cymru, NP20 4UR*